# CERIDWEN LLOYD MORGAN yn olrhain hanes

# Y LLYFR COCH O HERGEST

Tua phymtheg milltir o Lanelwedd, fel yr hed y frân, a rhyw filltir neu ddwy y tu draw i'r ffin, i'r de-orllewin o Geintun, saif plasty Hergest, un o brif ganolfannau llenyddiaeth Gymraeg yn y 15fed a'r 16fed ganrif. Yno y trigai cangen o deulu'r Fychaniaid, noddwyr y canai beirdd fel Lewis Glyn Cothi a Guto'r Glyn iddynt. Ond yno hefyd y bu cartref un o'r llawysgrifau enwocaf sydd wedi goroesi o'r Oesoedd Canol, sef y Llyfr Coch o Hergest.

Teulu pwysig a dylanwadol yn siroedd Maesyfed a Brycheiniog oedd y Fynachiaid. Tua 1400 y daeth y cyntaf ohonynt i Hergest, sef Thomas ap Rhosier Fychan, un o dri mab Rhosier Fychan, Brodorddyn neu Bredwardine, Sir Henffordd. Arhosodd Watcyn, y brawd hynaf, ym Mrodorddyn, tra ymsefydlodd y brawd arall, Syr Rhosier Fychan, yn Nhre'r-tŵr neu Dre-tŵr, ger Crucywel. Bu Thomas ap Rhosier Fychan yn flaenllaw mewn bywyd milwrol a sifil o dan y brenin Harri VI a threuliodd lawer o'i amser yn Lloegr. Gwyddom iddo fod yn gwnstabl Castell Huntingdon yn 1422, er enghraifft, ac yn 1460 derbyniodd gomisiwn i feddiannu yn enw brenin Lloegr gestyll a maenorau Dug Efrog ac Iarll Warwig. Ond yn y pen draw gadawodd garfan y brenin i ymuno â'r Iorciaid. Fe'i lladdwyd yn 1469, wedi brwydr Edgecote, ger Banbury.

Er bod gweithgaredd wleidyddol a milwrol meistr plas Hergest yn mynd ag ef oddi cartref yn bur aml, yr oedd y teulu'n cael eu hystyried yn noddwyr pwysig gan y beirdd. Canodd Lewis Glyn Cothi ddwy farwnad iddo, un ohonynt yn cyfeirio at amgylchiadau ei ladd 'yn Manbri oer yn mhen bryn'. Yn y llall cyfeirir at hanes gweddw Thomas, Elen Gethin, yn cyrchu ei gorff yn ôl i Geintun ac yn codi beddrod hardd iddo yno, lle y claddwyd hithau yn ogystal.

Mwy yw'r cost no mur castell;
Mae 'scriven uwchben y bedd,
Mae dau o enwau'n unwedd,
Enw Domas hael, nid mwy saith,
Enw Elen yno eilwaith.
Bob parth i'r bedd y gweddyn'
Byst ar gaer alabastr gwyn . . .

Mae'r bedd, gyda delwau alabastr o'r ddau, i'w weld hyd heddiw yn eglwys y Santes Fair, Ceintun. Gwraig gref a phenderfynol oedd Elen Gethin. Dywedir iddi ladd, â'i llaw ei hun, ei chefnder Siôn Hir ap Phylip Fychan, am iddo ladd ei brawd, Dafydd. Yr oedd hi'n dal ar dir y byw yn 1474, ond wedi symud erbyn hynny i fyw i Nash, ger Llanandras, gan adael Hergest, mae'n debyg, i'w mab Watcyn, a gadwodd draddodiad llenyddol y plas yn fyw ar ôl colli ei dad.

Fel y gwelwn yn y man, gall y Llyfr Coch fod wedi cyrraedd Hergest cyn i Thomas farw. Nid yno y'i copïwyd, fodd bynnag, ond ym Morgannwg. Y mae'n dra sicr erbyn hyn mai Hopcyn ap Thomas ab Einion (tua 1330-1408) o Ynysforgan, nid nepell o Abertawe, a gomisiynodd y llawysgrif, sydd yn cynnwys bron pob un o brif destunau rhyddiaith Gymraeg yr Oesoedd Canol yn ogystal â chasgliad sylweddol o farddoniaeth. Nid gormodiaith yw honni mai hon, o'n holl lawysgrifau canoloesol, yw'r bwysicaf o safbwynt hanes rhyddiaith Gymraeg, gan ei bod hi'n cynnwys pob un o'r prif destunau ac eithrio Cyfraith Hywel a thestunau crefyddol. O ran ei maint hefyd, hon yw'r mwyaf o'n llawysgrifau Cymraeg o'r Oesoedd Canol, yn cynnwys yn agos i bedwar cant o ddail a thros 1440 o golofnau o destun, rhai ohonynt wedi eu haddurno â brasluniau a gwawdluniau bychain, llawn hiwmor.

Er mai ym Morgannwg y casglwyd y testunau at ei gilydd a'u copïo, yr oedd cysylltiad â Maesyfed o'r cychwyn. Tri phrif gopïwr a fu'n gyfrifol am y gwaith, a gwelir llaw un ohonynt mewn nifer o lawysgrifau o flynyddoedd olaf y 14eg ganrif. Mewn llawysgrif yn ei law sydd bellach yn Llyfrgell Gyhoeddus Philadelphia, UDA, cafwyd hyd i'r nodyn canlynol:

> Y llyfr hwn a ysgrifennwys Hywel Fychan fab Hywel Goch o Fuellt . . . O arch a gorchymun ei feistr, nid amgen Hopcyn fab Thomas fab Einion.

Os cyfeiria'r copïwr ato'i hun fel Hywel Fychan ap Hywel Goch o Fuellt (neu Fuallt), dyma dystiolaeth iddo ef, neu efallai ei dad, fod â chysylltiad agos ag ardal Llanfair-ym-muallt. Tybed a oedd wedi ei eni a'i fagu yn Sir Faesyfed? Yn anffodus, nid oes rhagor o wybodaeth fywgraffyddol gennym. Ond ef, heb os nac oni bai, oedd un o gopïwyr pwysicaf ei gyfnod. Gwelir ei law mewn darnau helaeth iawn o'r Llyfr Coch o Hergest — ef a gopïodd *Pedair Cainc y Mabinogi, Culhwch ac Olwen, Owain, Peredur* a nifer o chwedlau eraill, testun meddygol a briodolir i Feddygon Myddfai, Trioedd Ynys Prydain, a llu o gerddi.

Nid y Llyfr Coch o Hergest yw'r unig lawysgrif a gysylltir â Hywel Fychan chwaith. Yn ei law ef y mae llawysgrif Coleg yr Iesu 57 yn Rhydychen, er enghraifft, sef copi pwysig o Gyfraith Hywel, a llawysgrif Peniarth 11 sydd yn cynnwys dwy ramant Arthuraidd, *Ystoryaeu Seint Greal*. Ef hefyd a lenwodd, yn Llyfr Gwyn Rhydderch, fwlch a adawyd gan gopïwr cynharach yn nhestun *Culhwch ac Olwen,* sydd yn profi i'r Llyfr Gwyn, a chopi arall o *Culhwch* o ran hynny, fod yn ei ddwylo ef neu ei feistr ar un adeg.

Diddorol hefyd yw sylwi mai Hywel Fychan a gopïodd lawysgrif Llansteffan 27, a adwaenir fel Llyfr Coch Talgarth. Casgliad nodedig yw hwn o destunau crefyddol Cymraeg, ac a gomisiynwyd, yn ôl pob tebyg, gan Rhys ap Thomas ab Einion, brawd Hopcyn ap Thomas a noddodd y Llyfr Coch o Hergest. Mae'n bosibl mai ym meddiant cangen arall o deulu'r Fychaniaid, a drigai ym Mhorthaml ger Talgarth yn Sir Frycheiniog y bu Llansteffan 27 ar un adeg, ond yr oedd yn Nhalgarth erbyn dechrau'r 18fed ganrif, oherwydd yn 1719 derbyniodd Moses Williams y llawysgrif yn rhodd gan ŵr o'r enw John Powell o Dalgarth. Efallai mai bryd hynny y cysylltwyd enw Talgarth â'r Llyfr Coch hwn.

Ymhlith y llu o destunau yn y Llyfr Coch o Hergest — ond nid, ysywaeth, y rhai a gopïwyd gan Hywel Fychan — y mae *Brut y Tywysogion*, cronicl sydd yn adrodd hanes y Cymry hyd at y goresgyniad. Un o'r fersiynau cynharaf yw'r un a geir yn y Llyfr Coch o Hergest, ond yn anffodus, nid yw'r copi hwn yn arbennig o gywir na dibynadwy. Credir, fodd bynnag, fod hwn, fel y fersiynau eraill hwythau, yn gyfieithiad neu addasiad o gronicl Lladin gan hanesydd dienw a weithiai tua diwedd y 13eg ganrif, o bosibl yn abaty Ystrad Fflur. Ym *Mrut y Tywysogion* wrth gwrs, y cofnodir lladd Llywelyn ap Gruffudd, ond daw'r fersiwn yn y Llyfr Coch ei hun i ben gyda chofnod am Gruffudd ap Maredudd a Rhys Gryg yn goresgyn tref a chastell Aberystwyth ym Mawrth 1282. Ond cofnodir yno nifer o ddigwyddiadau o gwmpas ardal Llanfair-ym-muallt yn y 13eg ganrif, gan gynnwys hanes gŵyr Llywelyn ap Gruffudd yn cipio castell Buellt yn 1260, a'i ddistrywio ar ôl 'dala y castellwyr a chael y meirch a'r arfau a'r dodrefn a'r ysbail oll'! Yn gynharach eto, yn 1226, cawsai Llywelyn ab Iorwerth afael ar y castell hwnnw a'r wlad o'i gwmpas a 'dirfawr swm o arian' gan frenin Lloegr, Harri III, yn gyfnewid am garcharor pwysig, Gwilym Brewys.

Ceir y copi cynharaf un o'r fersiwn hwn o *Frut y Tywysogion* yn llawysgrif Peniarth 18, ac y mae gan y gyfrol honno eto gysylltiad agos ag ardal yr Eisteddfod. Yn ail hanner y 15fed ganrif mae'n debyg i'r llawysgrif fod ym meddiant y bardd Ieuan ap Huw Cae Llwyd, a ddaeth i fyw i Sir Frycheiniog yn 1456. Wedi hynny aeth i ddwylo John Lewis, Llynwene, Sir Faesyfed, hanesydd a fu farw yn 1616.

Ond sut y daeth y Llyfr Coch o Hergest o Forgannwg, lle y'i copïwyd, i'r ardal hon? Ar ôl i'r llawysgrif gael ei chomisiynu gan Hopcyn ap Thomas, mae'n debyg iddi aros ym meddiant yr un teulu hyd at ganol y 15fed ganrif, pryd y gwrthryfelodd ŵyr Hopcyn, sef Hopcyn ap Rhys ap Hopcyn, ynghyd â bonheddwr arall, Philip Mansel, yn erbyn y brenin Edward IV. Methiant fu'r gwrthryfel, ac yn y llawysgrif honno o waith Hywel Fychan ap Hywel Goch sydd bellach yn Philadelphia, ceir nodyn, mewn llaw anhysbys o'r 17eg ganrif, yn cyfeirio at y digwyddiadau hyn: *'One Hopkin ap Rees the grandchild of this Hopcyn ap Thomas was put to Death at Chepstow temp. Richard 3rd'.* Rhoddwyd eu heiddo i gyd yn fforffed i neb llai na Syr Rhosier Fychan o Dre-tŵr, brawd y Thomas ap Rhosier hwnnw a drigai yn Hergest. Y mae'n bosibl, felly, i'r Llyfr Coch ddod i ddwylo Syr Rhosier ynghyd â gweddill eiddo Hopcyn ap Rhys ap Hopcyn, ac i'r llawysgrif fod yn Nhre-tŵr am gyfnod cyn cael ei throsglwyddo i Hergest, lle yr ymddiddorai'r teulu'n fwy, efallai, mewn llenyddiaeth na'u perthnasau yn Nhre-tŵr.

Erbyn diwedd yr 17eg ganrif yr oedd y Llyfr Coch ar fenthyg i Thomas Wilkins (m.1699), casglwr a hynafiaethydd nodedig a rheithor Llanfair-yn-y-fro, Morgannwg. Ei fab yntau, Thomas Wilkins arall, a'i gwerthodd yn 1701 i Goleg yr Iesu, Rhydychen. Yn y llawysgrif cafwyd hyd i dderbyneb am ddau swllt ar gyfer cludiant, a saith swllt am rwymo'r llawysgrif yn Chwefror 1701. Bu'r gyfrol ar fenthyg i Edward Lhuyd am gyfnod, a chafodd Coleg yr Iesu dipyn o drafferth i'w chael yn ôl pan fu yntau farw yn 1709. Cedwir y Llyfr Coch bellach yn Llyfrgell Bodley, Rhydychen, ond yn ystod y 1980au fe'i harddangoswyd am gyfnod yn y Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth. Dyna'r unig dro iddi ddychwelyd i Gymru ers 1701.